# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0434(FPS) a gyhoeddwyd gan John Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, ar 12 Awst 2008

**At Paul Davies:**

Fel y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, gofynnwyd i mi ateb y cwestiwn (OAQ(3)0434 (FPS) a ofynnwyd gennych chi yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Gorffennaf i Andrew Davies ar y broses o gysoni a dyrannu'r cyllid i Goleg Sir Benfro yn y flwyddyn academaidd 2008/09.

Ar gyfer 2007/08, rhoddwyd cyfanswm o £11.5 miliwn i'r Coleg, tra yn 2008/09, dyrannwyd £11.3 miliwn i'r Coleg. Y gostyngiad yw canlyniad dau ostyngiad a wnaed i'r dyraniadau ar gyfer 2008/09 ar gais y coleg:

1. Dewisodd y Coleg beidio â darparu gweithgaredd y Brifysgol dros Ddiwydiant, a fyddai wedi cael ei ariannu ar gost o £61,832. Mae'r cyllid wedi'i ailfuddsoddi yn rhwydwaith darparu gweithgaredd y Brifysgol dros Ddiwydiant.

2. Penderfynodd y Coleg ildio'r cyllid gwerth £264.302 yn ymwneud â darparu rhyddfraint Dysgu Cymunedol. Mae'r arian wedi'i drosglwyddo i Gyngor Sir Penfro sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r math hwn o ddysgu yn y Sir.

Os ydych yn rhoi ystyriaeth i'r ddau newid hwn, byddai'r cyllid a ddyranwyd ar gyfer 2008/09 yn £11.6 miliwn, cynnydd o 1.55 y cant.